

Gofal plant o safon

An Investors in Children Quality Assurance Scheme

SureStart

Arweiniad i rieni ar gynlluniau sicrhau ansawdd yr NCMA ar gyfer gwarchodwyr plant

ncma

Beth yw gofal plant o safon?

Dewis gwasanaeth gofal plant yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn ei wneud fel rhiant. Byddwch am deimlo'n hyderus eich bod wedi gwneud y dewis gorau a bod eich plentyn yn cael gofal da.

Mae'n debyg bod gennych syniad eithaf clir o'r hyn yr ydych am ei gael gan wasanaeth gofal plant o ansawdd da, ac mae gweithredu'n reddfol wrth ddewis gwasanaeth gofal plant yn hollbwysig. Er hynny, bydd gwybod am yr archwiliadau a gafodd y darparwr gofal plant yr ydych wedi'i ddewis, a deall yr archwiliadau hynny, yn fodd i dawelu eich meddwl.

Yn y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, rydym wedi llunio dau ddull o fesur y gwasanaeth gofal plant o safon y mae ein gwarchodwyr plant yn ei ddarparu. Caiff y dulliau hyn eu galw'n gynlluniau sicrhau ansawdd. Maent yn cynnwys gwaith asesu trwyadl, ac maent yn fwy manwl na'r broses gofrestru sylfaenol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae cynllun NCMA Quality First wedi'i lunio ar gyfer gwarchodwyr plant unigol, ac mae cynllun NCMA Plant yn Gyntaf wedi'i lunio ar gyfer rhwydweithiau gwarchod plant. Mae'r ddau gynllun yn annog gwarchodwyr plant i ystyried y modd y maent yn cyflawni eu gwaith, ac yn eu hannog hefyd i ddilyn llwybr a fydd yn eu galluogi i wella'u sgiliau a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

Beth mae cofrestru'n ei olygu i warchodwyr plant?

Rhaid i bob gwarchodwr plant gael eu cofrestru gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yng Nghymru ac Ofsted yn Lloegr. Dylent sicrhau bod ganddynt yswiriant priodol a thystysgrif gyfredol mewn cymorth cyntaf, a dylent fod wedi cael archwiliad meddygol a hyfforddiant rhagarweiniol. Yn ogystal, dylent fod wedi bod yn destun datgeliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dylai pob aelod o deulu'r gwarchodwr plant sydd dros 16 oed fod yn destun datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol hefyd.

Pam dewis gwarchodwr plant cofrestredig?

Mae gwarchodwyr plant yn gweithio yn eu cartrefi eu hunain, ac maent yn gofalu am grwpiau bach o blant gan ddarparu gofal hyblyg o safon. Mae gwarchodwyr plant yn ddewis delfrydol oherwydd:

- byddant yn gofalu am eich plentyn mewn amgylchedd cartrefol gyda grŵp bach o blant eraill, sy'n golygu y bydd pob un yn cael llawer o sylw unigol.
- mae gwarchodwyr plant mewn sefyllfa unigryw i ddarparu gofal plant i blant anabl a'u teuluoedd gan eu bod yn cynnig gofal mwy personol i grwpiau bach o blant.
- bydd yr un person yn gofalu am eich plentyn bob dydd – mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt babanod a phlant ifanc. Yn ogystal, bydd plant yn aml yn aros gyda'r un gwarchodwr plant o'r cyfnod pan fyddant yn fabanod i'r cyfnod pan fyddant yn dechrau'r ysgol uwchradd, ac maent felly'n elwa ar y sefydlogrwydd sy'n deillio o hynny.
- gellir gofalu am blant o bob oed gyda'i gilydd, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, ac mae hynny'n creu amgylchedd teuluol.
- mae eu horiau gwaith yn hyblyg, er enghraifft cyn ac ar ôl ysgol, neu gallant addasu'u horiau gwaith i gyd-fynd ag oriau gwaith anarferol. Gallant fynd â'ch plant i'r ysgol neu'r cylch chwarae a'u casglu oddi yno.

Sut y mae gwarchodwyr plant yr NCMA yn wahanol?

Mae gwarchodwyr plant yr NCMA yn gweithio tuag at gyrraedd 10 o Safonau Ansawdd yr NCMA. Mae'r canllawiau manwl hyn yn ymdrin â phob agwedd ar ofal plant yn y cartref, ac maent yn dangos bod gwarchodwr plant wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth proffesiynol. Mae'r NCMA yn hybu'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n rhoi pwyslais ar ddiwallu anghenion unigol pob plentyn mewn sefyllfa gynhwysol yn y cartref.

Am wybod mwy am gynlluniau sicrhau ansawdd yr NCMA?

Mae cynlluniau sicrhau ansawdd yr NCMA wedi'u seilio ar 10 o Safonau Ansawdd yr NCMA sy'n ymdrin â phob agwedd ar ofal plant yn y cartref. Lluniwyd y cynlluniau hyn â chymorth a chefnogaeth yr Adran Addysg a Sgiliau, ac maent wedi ennill cymeradwyaeth swyddogol Buddsoddwyr mewn Plant yn Lloegr. Cafodd y cynllun Buddsoddwyr mewn Plant ei lunio er mwyn galluogi rhieni i fod â hyder yn ansawdd y gwasanaeth gofal plant y maent wedi'i ddewis.

NCMA Quality First

Quality First, a lansiwyd yn 2003, yw cynllun sicrhau ansawdd yr NCMA ar gyfer gwarchodwyr plant unigol, a chaiff y cynllun ei gydnabod yn genedlaethol. Mae bod yn rhan o gynllun NCMA Quality First yn golygu bod eich gwarchodwr plant:

- wedi dangos ymrwymiad i 10 o Safonau Ansawdd yr NCMA
- wedi cymryd camau gweithredu i ystyried ei arferion ac wedi dod o hyd i ffyrdd o wella'i wasanaeth
- wedi cael cymorth a gwybodaeth gan fentor gwarchod plant
- wedi cael ei arolygu gan aseswr yr NCMA, sy'n edrych sut y mae'n ymwneud ac yn cyfathrebu â'r plant y mae'n gofalu amdanynt
- wedi cwblhau portffolio cynhwysfawr NCMA Quality First er mwyn dangos sut y mae'n cydymffurfio â'r arfer gorau.

NCMA Plant yn Gyntaf

Cynllun NCMA Plant yn Gyntaf yw'r unig gynllun sicrhau ansawdd ar gyfer rhwydweithiau gwarchod plant a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol. Rhwydwaith gwarchod plant a gymeradwywyd gan gynllun Plant yn Gyntaf yw grŵp o warchodwyr plant cofrestredig sy'n cydweithio â'i gilydd – â chymorth ac arweiniad gan gydlynydd rhwydwaith – er mwyn darparu gwasanaeth gwarchod plant o safon ar gyfer eu cymuned leol.

Mae rhwydweithiau'n hyblyg iawn, a gallant ddarparu ystod o wasanaethau er mwyn diwallu eich anghenion chi ac anghenion eich cymuned. Mae hynny'n cynnwys rhannu adnoddau megis offer chwarae a gwybodaeth ag aelodau eraill y rhwydwaith, a chynnig gwasanaeth gofal plant wrth gefn pan fo gwarchodwyr plant eraill yn sâl neu ar wyliau.

Os yw eich gwarchodwr plant yn perthyn i un o rwydweithiau NCMA Plant yn Gyntaf, bydd:

- wedi cymryd camau gweithredu i ystyried ei arferion ac wedi dod o hyd i ffyrdd o wella'i wasanaeth
- wedi cael ei asesu gan gydlynydd rhwydwaith er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio tuag at gyrraedd Safonau Ansawdd yr NCMA
- wedi cael ymweliadau a chymorth parhaus gan gydlynydd
- wedi dangos ei fod yn cynnig gofal plant o safon uchel iawn.

A all fy mhlentyn gael addysg y blynyddoedd cynnar yn rhad ac am ddim?

Ar hyn o bryd, mae hawl gan bob plentyn 3 a 4 oed i gael pum sesiwn yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar yn rhad ac am ddim cyn dechrau'r ysgol. Mae nifer gynyddol o warchodwyr plant sy'n perthyn i rwydweithiau NCMA Plant yn Gyntaf yn cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn darparu addysg y blynyddoedd cynnar, ac maent yn cael arian gan y llywodraeth ar gyfer gwasanaeth o'r fath. Caiff rhwydweithiau sy'n cynnig addysg y blynyddoedd cynnar eu harolygu gan Estyn yng Nghymru ac adran addysg Ofsted yn Lloegr.

Wrth gael addysg y blynyddoedd cynnar yn rhad ac am ddim gan warchodwr plant sy'n perthyn i rwydwaith, mae eich plentyn:

- yn cael sylw a chymorth unigol
- yn dysgu drwy chwarae a thrwy gyfrwng sefyllfaoedd go iawn
- yn mwynhau dysgu mewn sefyllfaoedd yn y cartref
- yn dysgu ar gyflymder o'i ddewis ei hun.

Sut y mae hyfforddiant ar gyfer gwarchodwyr plant yn cyd-fynd â hyn?

Rhaid i bob gwarchodwr plant cofrestredig ddilyn cwrs rhagarweiniol ar warchod plant. Mae nifer o warchodwyr plant yn parhau i gael hyfforddiant ychwanegol fel y gallant wella'u gwasanaeth gwarchod plant. Fel hyn, gall gwarchodwyr plant ddangos eu hymrwymiad parhaus i ddatblygiad proffesiynol i'r rhieni. Mae hyfforddi ac asesu yn rhan allweddol o raglenni sicrhau ansawdd yr NCMA.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech fanylion am warchodwyr plant yn eich ardal sydd â lleoedd gwag, cysylltwch â Childcare Link a all eich cyfeirio at eich Gwasanaeth Gwybodaeth Plant lleol. Ffoniwch Childcare Link yn rhad ac am ddim ar 0800 096 02 96 neu trowch at ei wefan: www.childcarelink.gov.uk. Yng Nghymru, ffoniwch yr Is-adran Plant a Theuluoedd ar 029 2082 6802.

Ceir mwy o wybodaeth ynghylch dewis gwarchodwr plant cofrestredig ar wefan yr NCMA, a cheir mwy o wybodaeth yno hefyd am gynlluniau sicrhau ansawdd NCMA Quality First ac NCMA Plant yn Gyntaf.

www.ncma.org.uk

Manylion am yr NCMA

Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant ar gyfer Cymru a Lloegr yw'r unig elusen genedlaethol a'r unig fudiad ag aelodau sy'n siarad ar ran gwarchodwyr plant cofrestredig. Rydym yn hyrwyddo gwasanaeth gwarchod plant cofrestredig sydd o safon fel y gall plant, teuluoedd a chymunedau gael budd o'r ddarpariaeth orau posibl o ran gofal plant ac addysg.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth ynghyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol, Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP), Ofsted, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a mudiadau gofal plant eraill, ein nod yw sicrhau bod gan bob gwarchodwr plant cofrestredig fynediad i wasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth a fydd yn eu galluogi i weithio mewn modd proffesiynol.

Manylion cyswllt

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
Royal Court, 81 Tweedy Road, Bromley, Kent BR1 1TG
Llinell Wybodaeth: 0800 169 4486

www.ncma.org.uk

Côd QA1W 04/06

Quality childcare

An Investors in Children Quality Assurance Scheme

SureStart

A parents' guide to NCMA quality assurance schemes for childminders

ncma

What is quality childcare?

Choosing childcare is one of the most important decisions you will make as a parent. You will want to feel confident that you have made the best choice and your child is being well looked after.

You probably have a good idea of what you want from good quality childcare and trusting your gut instinct when choosing childcare is vital. It is reassuring though, to know and understand the checks that the childcare provider you choose has been through.

At the National Childminding Association, we have come up with two ways of measuring the quality childcare that our childminders provide. These are known as quality assurance schemes which involve rigorous assessment and go further than basic registration, which is required by law.

NCMA Quality First is for individual childminders and NCMA Children Come First is for childminding networks. Both schemes encourage childminders to reflect on how they carry out their work and begin a journey of continual professional development and improvement.

What does registration mean for childminders?

All childminders must be registered with Ofsted in England, and in Wales, by the Care Standards Inspectorate for Wales (CSIW). They should have insurance; a health check; introductory training; a current first-aid certificate; and had an enhanced CRB (Criminal Records Bureau) disclosure. All members of their family over the age of 16 also have CRB disclosure.

Why choose a registered childminder?

Childminders work in their own homes looking after small groups of children, providing flexible, quality care. Childminders are an ideal option because:

- your child will be looked after with a small group of children in a home environment which means they'll get lots of individual attention.
- childminders are uniquely placed to provide childcare for disabled children and their families, offering more personalised care to small groups of children.
- the same person will care for your child every day – especially important for babies and young children. Also, children often stay with the same childminder from being a baby to starting secondary school – benefiting from the stability that this provides.
- children of all ages, including siblings, can be cared for together – creating a family environment.
- they can offer flexible hours, such as before and after school, or fit in around non-standard working hours. They can collect and drop off children at school or playgroup.

What's different about NCMA childminders?

NCMA childminders work towards NCMA's 10 Quality Standards. These rigorous guidelines cover all aspects of home-based childcare and show that a childminder is dedicated to providing a professional service. NCMA promotes the social model of disability which emphasises meeting the individual needs of all children in an inclusive home-based setting.

Tell me more about the NCMA quality assurance schemes.

The NCMA quality assurance schemes are based on NCMA's 10 Quality Standards covering all aspects of home-based childcare. They have been created with the help and support of the Department of Education and Skills (DfES) and have received official Investors in Children (IiC) endorsement in England. IiC is designed to give parents confidence in the quality of the childcare they have chosen.

NCMA Quality First

Launched in 2003, Quality First is NCMA's nationally recognised quality assurance scheme for individual childminders. NCMA Quality First means your childminder has:

- demonstrated commitment to NCMA's 10 Quality Standards
- actively thought about their practice and found ways of improving their service
- received support and information from a childminding mentor
- been checked by an NCMA assessor who observes how they relate to and communicate with children in their care
- produced a comprehensive NCMA Quality First portfolio to demonstrate how they achieve best practice.

NCMA Children Come First

NCMA Children Come First is the only nationally recognised quality assurance scheme for childminding networks. A Children Come First approved childminding network is a group of registered childminders who work together, with support and guidance from a network coordinator, to provide a quality childminding service for their local community.

Networks are very adaptable and can provide a range of services to meet your needs and those of your community. This includes sharing resources such as play equipment and information amongst network members and offering childcare cover when childminders are sick or on holiday.

If your childminder belongs to an NCMA Children Come First network, he or she will have:

- actively thought about their practice and found ways of improving their service
- been assessed by a network coordinator to make sure they are working towards NCMA's Quality Standards
- received ongoing visits and support from a coordinator
- demonstrated very high standards of childcare.

Can my child get free early years education?

Every 3- and 4-year-old is currently entitled to five free early years education sessions a week before they begin school. A growing number of NCMA Children Come First network childminders are taking additional training to provide early years education accessing government funding for this service. Ofsted's education division in England and Estyn in Wales inspects networks offering early years education.

Receiving free, early years education from a network childminder means your child:

- receives individual attention and help
- learns through play and real-life situations
- enjoys learning in a home-based situation
- learns at their own pace.

How does training for childminders fit in?

All registered childminders are required to take an introductory childminding course. Many childminders continue to undertake additional training so they can enhance their childminding service. In this way childminders are able to demonstrate to parents their ongoing commitment to professional development. Training and assessment form a key part of NCMA quality assurance programmes.

Find out more

For details of childminders with vacancies in your area, contact Childcare Link who can put you in touch with your local Children's Information Service. Call Childcare Link free on 0800 096 02 96, or go to its website www.childcarelink.gov.uk or call the Children and Families Division on 029 2082 6802.

NCMA's website has further information on choosing a registered childminder and about the NCMA Quality First and NCMA Children Come First quality

www.ncma.org.uk

About NCMA

The National Childminding Association for England and Wales (NCMA) is the only national charity and membership organisation that speaks on behalf of registered childminders. We promote quality registered childminding so that children, families and communities can benefit from the best in childcare and education.

Working in partnership with the Government and the National Assembly for Wales, local authorities, Early Years Development and Childcare Partnerships, Ofsted, CSIW and other childcare organisations, we aim to ensure that every registered childminder has access to services, training, information and support to enable them to do a professional job.

Contact details

National Childminding Association
Royal Court, 81 Tweedy Road, Bromley, Kent BR1 1TG
www.ncma.org.uk

Code QAW1 04/06